# PWYLLGOR CYNLLUNIO DYDD LLUN, 27 CHWEFROR 2023

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Edgar Owen (Cadeirydd)
Elwyn Edwards (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Delyth Lloyd Griffiths, Elwyn Jones, Gareth T Jones, Huw Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Cai Larsen, Gareth A Roberts, John Pughe Roberts, Huw Rowlands a Gruffydd Williams

**Swyddogion:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio ac Amgylchedd), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Keira Sweenie (Rheolwr Cynllunio), Idwal Williams (Arweinydd Tîm Rheolaeth Datblygu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Eraill a Wahoddwyd:**

Cyng. Rhys Tudur a'r Cyng. Stephen Churchman (Aelodau Lleol)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Elin Hywel a'r Cyng. Gareth Coj Parry

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

Datganodd yr aelodau canlynol eu bod yn aelodau lleol mewn perthynas â'r eitem a nodir:

- Y Cynghorydd Rhys Tudur (nad oedd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.1 (C21/1038/41/LL) ar y rhaglen
- Y Cynghorydd Gareth Roberts a'r Cynghorydd Huw Wyn Jones (oedd yn Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.2 (C22/1020/11/LL) ar y rhaglen
- Y Cynghorydd Stephen Churchman (nad oedd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.3 (C22/1102/36/AC), ar y rhaglen

Amlygodd y Cyng. Gruffydd Williams ei fod wedi derbyn llythyr yn gwrthwynebu cais C21/1038/41/LL Tŷ'n Lôn, Afonwen, Pwllheli, Gwynedd. Cyfeiriodd y llythyr ymlaen i'r Rheolwr Cynllunio.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 6 Chwefror 2023 fel rhai cywir.

## 5. CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i ddatblygu. Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisïau

## 6. CAIS RHIF C21/1038/41/LL TY'N LÔN, AFONWEN, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 6TX

**Sefydlu maes carafanau teithiol (19 uned) gyda bloc toiledau a gwaith cysylltiedig**

Bu i rai Aelodau ymweld â'r safle a'r ardal o gwmpas Afonwen bore 27ain Chwefror 2023

a) Amlygodd y Rheolwr Cynllunio mai cais ydoedd ar gyfer newid defnydd tir amaethyddol, i sefydlu safle carafanau teithiol i 19 uned, ymestyn adeilad presennol i greu bloc toiledau a gwaith cysylltiedig ar dir yn Nhŷ'n Lôn, Afonwen. Gohiriwyd y cais ym Mhwyllgor Cynllunio 16 Ionawr 2023 er mwyn i'r Aelodau gynnal ymweliad safle. Ers cyflwyno'r cais i gyfarfod 16 Ionawr 2023, derbyniwyd un llythyr yn gwrthwynebu'r bwriad.

Nodwyd, gan mai'r bwriad yw creu safle ar gyfer carafanau teithiol, ystyriwyd y cais o dan Bolisi TWR 5 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLl) sy'n gosod cyfres o feini prawf ar gyfer caniatáu datblygiadau o'r fath. Mynegwyd bod maen prawf 1 o'r polisi yn datgan y dylai unrhyw ddatblygiad carafanau teithiol newydd fod o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad ac wedi'i guddio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd a / neu mewn lle gellir cydweddu'r unedau teithiol yn hawdd i'r dirwedd mewn modd nad yw'n peri niwed sylweddol i'w hansawdd weledol.

Eglurwyd y byddai'r bwriad arfaethedig wedi ei leoli mewn cae gwastad gyda choed aeddfed ar y terfynau ac felly'n guddiedig o leoliadau cyhoeddus. Ategwyd bod bwriad atgyfnerthu sgrinio'r safle trwy blannu gwrych newydd o goed cynhenid fel ffin orllewinol newydd i wahanu'r cae carafanau o'r cae ehangach. Nid yw'r safle o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) nac o fewn Ardal Tirwedd Arbennig a ni ystyriwyd y byddai'n achosi niwed arwyddocaol i ansawdd y dirwedd. Amlygwyd bod y bwriad wedi ei ddylunio i gwrdd â gofynion trwyddedu o safbwynt gofod a chyfleusterau - derbyniwyd fod y datblygiad yn un safonol.

Ym mhwyllgor Ionawr 2023, amlygwyd pryderon am yr 'effaith gronnus' o ran agosatrwydd y safle at safleoedd carafanau sefydlog eraill megis Hafan y Môr ac Ocean Heights a safle teithiol Afon Wen gyferbyn a Sŵn y Môr i'r cefn. Er bod sawl safle sefydlog a teithiol yn y cyffiniau, ni ystyriwyd yr ardal dan sylw yn esiampl o leoliad sydd o dan bwysau aruthrol o ran datblygiadau twristiaeth o'r fath. Mynegwyd, yn wahanol i bolisi TWR 3 sy'n ymwneud a safleoedd carafanau sefydlog, nid yw effaith gronnus yn ystyriaeth ym meini prawf polisi TWR 5 gan mai defnydd dros dro yw'r defnydd teithiol gyda llai o effaith na strwythurau sefydlog. Fodd bynnag, mae'r meini prawf eu hunain yn ymateb i'r effaith gronnus yn yr ystyr na ddylid caniatáu safleoedd mewn mannau ymwthiol nad ydynt yn agos i'r prif rwydwaith ffyrdd.

Cyfeiriwyd at baragraff 6.3.81 o'r polisi sydd yn nodi na ddylid caniatáu carafanau

mewn lleoliadau agored ger yr arfordir nac mewn AHNE - y safle yma wedi ei leoli i ffwrdd o leoliad arfordirol agored a heb unrhyw ddynodiad tirwedd i'r cyffiniau.

Yng nghyd-destun materion cyffredinol a phreswyl nodwyd, ar sail y pellter a natur guddiedig y cae, ni ystyriwyd y byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol sylweddol nac achosi aflonyddwch ar unrhyw drigolion cyfagos. Ystyriwyd fod y bwriad yn dderbyniol o agwedd Polisi PCYFF 2 y CDLl sy'n ymwneud ag amddiffyn mwynderau defnyddwyr tir cyfagos.

Yng nghyd-destun materion bioamrywiaeth ymgynghorwyd a'r Uned Bioamrywiaeth gan fod y cae dan sylw ynghyd â'r tir i'r gogledd a gorllewin o'r safle wedi ei adnabod yn safle Bywyd Gwyllt Lleol. Mewn ymateb i'w sylwadau, gofynnwyd i'r datblygwr gyflwyno Asesiad Ecolegol Cychwynnol ac yn sgil canlyniadau'r arolwg a chais am asesiadau pellach, cyflwynwyd Arolwg Botanegol, Arolwg Moch Daear a Chynllun Mesurau Lliniaru Bywyd Gwyllt yn ddiweddarach ar y cais. Nodwyd bod yr Uned Bioamrywiaeth wedi cadarnhau bod yr adroddiadau wedi eu gwneud i safon dda gan gynghori y dylai'r bwriad ddilyn y mesurau lliniaru a'r gwelliannau a gynhigiwyd

Roedd y Swyddogion Cynllunio yn parhau o'r farn bod y bwriad yn dderbyniol ac na fyddai'n cael effaith niweidiol sylweddol ar y dirwedd, mwynderau'r gymdogaeth na diogelwch ffyrdd.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelod Lleol y sylwadau canlynol:
- Safleoedd carafanau sefydlog ynteu symudol - yr un yw'r farn - creu dwysedd uchel drwy Wynedd gyfan
- Safle Hafan y Môr ac Abererch Sands yn safleoedd mawr iawn heb son am safleoedd eraill cyfagos. Pa amgylchiadau eraill felly fyddai yn sail i 'ormodedd'?
- Derbyn bod TWR3 yn cyfeirio at safleoedd sefydlog a dim teithiol, ond dyma wendid TWR5 - dim diffiniad clir i 'ormodedd' - blerwch y Cynllun Datblygu o beidio gosod maen prawf i garafanau teithiol fel sydd i garafanau sefydlog.
- Rhaid ystyried y safbwyntiau o ddehongli polisi mewn modd priodol - rhaid gosod diffiniad clir o ormodedd mewn polisïau i gynnwys safleoedd teithiol.
- Annog y pwyllgor i wrthod y cais ar sail gormodedd a chreu diffiniad polisi gwell i'r dyfodol

c) Cynigiwyd ac eiliwyd caniatáu y cais yn unol ar argymhelliad.

ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:
- Bod y cais yn cyfateb i ofynion polisi cyfredol
- Bod y safle yn daclus – yr adeiladau a'r toiledau o safon uchel
- Bod un cais wedi ei ganiatáu yn groes i ofynion polisi yn Nwyfor – angen cysondeb
- Bod angen ystyried sylwadau'r Aelod Lleol a'r Cyngor Cymuned sydd yn gwrthwynebu'r cais ar sail gormodedd
- Nad yw rhai safleoedd carafanau teithiol yn cydymffurfio gyda rheolau o orfod symud carafanau dros y Gaeaf - dim digon o swyddogion gorfodaeth i gadw golwg ar y sefyllfa
- Dylai'r maen prawf 'effaith gronnus' fod ar gyfer teithiol a symudol
- Bod nifer o safleoedd carafanau yn y cylch – i'r dyfodol, un parc

carafanau fydd yr arfordir rhwng Criccieth a Pwllheli
- Pam bod y polisi mor flêr yn diffinio 'gormodedd'? Angen llunio polisi newydd
- Bod yr effaith gronnus yn annerbyniol
- Y dylid rhestru niferoedd carafanau. Gormod o garafanau yn yr ardal yma
- Gormodedd / gor-dwrisitiaeth yn effeithio ar ddiwylliant, iaith, cefnogaeth i wasanaethau ac aflonyddwch i gymdogion

d) Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio ac Amgylchedd bod y cais yn cyfateb i ofynion polisi cyfredol CDLl - yr adroddiad yn un clir ac yn datgan y polisïau perthnasol ar gyfer carafanau teithiol. Y cais yn cyd-fynd a'r gofynion. Cyfeiriwyd at gais a ganiatawyd yn groes i'r argymhelliad am 32 carafanau teithiol mewn ardal o fewn AHNE - angen sicrhau bod y Pwyllgor yn gyson wrth weithredu polisïau. Amlygwyd y risgiau fydd yn agored i'r Cyngor petai y cais yn cael ei wrthod.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Swyddog Monitro bod y cais yn cyfarch y meini prawf ac os bydd awgrym o wrthod ar sail effaith gronnus, bydd angen tystiolaeth i amlygu ardrawiad o'r sefyllfa. Ategwyd bod rhaid i'r Pwyllgor amlygu sicrwydd cyson wrth weithredu a dehongli polisïau a meini prawf.

dd) Yn dilyn pleidlais gofrestredig, disgynnodd y cynnig i ganiatáu

e) Cynigiwyd ac eiliwyd gwrthod y cais ar sail gormodedd ac aflonyddwch gweledol

**PENDERFYNWYD: GWRTHOD y cais, yn groes i'r argymhelliad**

**Rheswm: Byddai'r bwriad yn sefydlu safle carafanau teithiol newydd mewn lleoliad ble ceir gormodedd o safleoedd carafanau teithiol a sefydlog presennol, gan beri niwed i ansawdd gweledol y dirwedd yn ogystal ac achosi aflonyddwch sŵn a fyddai'n cael effaith andwyol annerbyniol ar fwynderau'r cymdogion cyfagos, yn groes i amcanion polisi TWR 5 a PCYFF 2 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.**

**7. CAIS RHIF C22/1020/11/LL CYN YSGOL GYNRADD - YSGOL GLANADDA, LLWYBR YR YSGOL, BANGOR, GWYNEDD, LL57 4SG**

**Adeiladu ysgol gynradd unllawr newydd gyda 150 lle, meithrinfa 20 lle a Chylch Meithrin 30 lle a gwaith allanol cysylltiedig, gan gynnwys trin ffiniau, trefniadau parcio newydd a darpariaethau mynediad gwell ar gyfer adleoli Ysgol Ein Harglwyddes ar hen safle Ysgol Glanadda.**

a) Amlygodd yr Arweinydd Tîm Rheolaeth Datblygu mai cais ydoedd ar gyfer adeiladu ysgol newydd ar gyfer 200 o ddisgyblion a fyddai'n cynnwys meithrinfa a chylch meithrin. Byddai'r datblygiad yn galluogi adleoli Ysgol Ein Harglwyddes o'i safle presennol ger y bont rheilffordd ar Ffordd Caernarfon, Bangor, sydd ar hyn o bryd yn gweithredu o fewn adeilad a safle cyfyngedig, sy'n gwneud dysgu ac addysgu dyddiol yn heriol. Ategwyd bod yr adeilad presennol yn dod at ddiwedd ei oes wasanaethol ac mae problemau cynnal a chadw parhaus yno.

Adroddwyd bod y cynnig yn cwrdd gyda holl feini prawf Polisi ISA 2, sef polisi sy'n gefnogol i ddarparu cyfleusterau cymunedol newydd, ynghyd a Pholisi ISA 4 sy'n dynodi Llecynnau Agored sydd i'w gwarchod rhag datblygiad (y cae chwarae ar y safle wedi ei ddiogelu dan y dynodiad hwn).

Yng nghyd-destun mwynderau gweledol ystyriwyd bod y dyluniad a gyflwynwyd yn cynnig datblygiad a fyddai o raddfa a gwedd a fyddai'n addas ar gyfer ei safle dinesig. Mae'r ffaith y bydd nodweddion o gymeriad yr ysgol bresennol, megis brics Rhiwabon coch, yn cael eu hymgorffori yn y dyluniad yn pwysleisio'r dilyniant o'r sefyllfa bresennol.

Yng nghyd-destun mwynderau cyffredinol a phreswyl, derbyniwyd, wrth gynyddu maint yr ysgol ac annog y defnydd o fannau allanol, y gall bod cynnydd mewn sŵn i drigolion tai cyfagos. Wedi dweud hynny, dim ond am oriau cyfyngedig bydd yr ysgol yn agored a'r rhan fwyaf o'r amser hynny bydd y plant yn yr adeilad. Ar y cyfan, wrth ystyried nad oes newid defnydd i'r safle, ni ystyriwyd bydd y datblygiad yn achosi niwed arwyddocaol i fwynderau'r ardal leol na'i thrigolion yn y tymor hir er, yn anorfod, bydd peth sŵn ac aflonyddwch yn ystod y cyfnod adeiladu.

Wrth drafod materion priffyrdd nodwyd bod Asesiad Trafnidiaeth wedi ei gyflwyno gyda'r cais oedd yn nodi, er bod y safle wedi gweithredu'n flaenorol fel ysgol sydd â threfniant mynediad hanesyddol, bod gwelliannau ychwanegol. Derbyniwyd sylwadau oddi wrth yr Uned Trafnidiaeth oedd yn datgan pryder ynghylch effeithiau posibl y datblygiad ar lif trafnidiaeth a pharcio yn yr ardal ac ynghylch y llwybrau cerdded fydd ar gael i blant fynychu'r ysgol. Er hynny, ystyriwyd bod posib rheoli'r materion hynny os byddai'r Ysgol yn ymrwymo i Gynllun Teithio i'r Ysgol.

Wedi ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol, ni ystyriwyd y byddai'r bwriad yn debygol o achosi effeithiau andwyol annerbyniol hirdymor i drigolion gerllaw na'r gymuned yn gyffredinol ac y bydd modd rheoli unrhyw effeithiau byrdymor trwy osod amodau priodol ar y datblygiad.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelodau Lleol y sylwadau canlynol:
- Eu bod yn gefnogol i'r cais
- Bod yr hen ysgol mewn lle annifyr a phrysur
- Bod symud i leoliad agos yn gwneud synnwyr
- Bod y cynllun yn un da
- Dim gwrthwynebiadau i'r cais – pawb i weld yn gefnogol
- Cais i osod paneli solar ar yr adeilad – a yw egni adnewyddol wedi ei ystyried?

c) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:
- Bod yr hen adeilad yn un trawiadol ac mewn lle amlwg
- Balch bod rhai o'r nodweddion traddodiadol (brics coch Rhiwabon) yn cael eu gwarchod
- Cais i roi llechi ar y to a dim to fflat
- Cytuno gyda'r awgrym i roi paneli solar ar y to
- Sylw nad oedd Cyngor Dinas Bangor wedi cynnig sylwadau ar fater allweddol
- Angen sicrhau digon o lefydd parcio i staff a rheini
- Croesawu ardal chwarae aml ddefnydd digonol a modern

ch) Mewn ymateb i sylw ynglŷn â defnyddio paneli solar, nodwyd bod modd

trafod y mater gyda'r ymgeisydd, ond bod cynllun o'r fath, fel arfer yn gorfod cwrdd gyda gofynion cynaliadwyedd rheolaeth adeiladau.

d) Cynigiwyd ac eiliwyd caniatáu y cais

**PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i amodau'n ymwneud a'r materion canlynol:**

1. **Amser (5 mlynedd)**
2. **Yn unol â'r cynlluniau**
3. **Amod Tir Llygredig**
4. **Rhaid dilyn argymhellion yr Arolwg Ecolegol**
5. **Rhaid cwblhau arolwg ffotograffig**
6. **Sicrhau enw ac arwyddion Cymraeg / Dwyieithog**
7. **Rhaid cytuno Cynllun Teithio i'r Ysgol gyda'r Uned Trafnidiaeth a gweithredu'n unol â gofynion y cynllun hwnnw**

**Nodiadau**

1. **Dŵr Cymru**
2. **Cyfoeth Naturiol Cymru**
3. **Uned Draenio Tir**

**8. CAIS RHIF C22/1102/36/AC TIR I'R DE O'R A487 AC I'R DWYRAIN O'R B4411**

Diwygio amod 1 (cyfnod cychwyn gwaith) ar ganiatâd cynllunio C17/0772/36/LL er ymestyn y cyfnod i ddechrau'r gwaith am 5 mlynedd bellach

a) Amlygodd Arweinydd Tîm Rheolaeth Datblygu mai cais ydoedd ar gyfer diwygio amod 1 o ganiatâd cynllunio cyfeirnod C17/0772/36/LL ar gyfer is-orsaf newydd a seilwaith cysylltiedig er mwyn ymestyn y cyfnod dechreuad y datblygiad am 5 mlynedd ychwanegol. Mynegwyd bod angen compownd yr is-orsaf i roi lle i'r trawsnewidydd trydanol sengl a fyddai'n 'gostwng' foltedd 400kv cylched Pentir -Trawsfynydd i foltedd o 132kv. Pan gyflwynwyd cais C17/0772/36/LL roedd y gwaith yn gysylltiedig gyda'r Wylfa newydd arfaethedig. Pan ddisgynnodd y cynlluniau ar gyfer Wylfa newydd drwodd ni ymgymerwyd gyda'r gwaith yn gysylltiedig gyda'r is-orsaf drydan. Erbyn hyn mae angen yr un gwaith ar gyfer cysylltu i ffermydd gwynt alltraeth (offshore) fel y gallent gysylltu i'r rhwydwaith trydan ehangach.

Cyflwynwyd y cais i Bwyllgor am ei fod yn ymwneud gyda safle dros 0.5 hectar.

Eglurwyd mai cais i ymestyn cyfnod cychwyn y datblygiad o 5 flynedd ychwanegol oedd gerbron, ac nad oedd bwriad newid i'r cynllun. Ategwyd bod egwyddor y bwriad wedi ei dderbyn a'i sefydlu eisoes gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol drwy ganiatâd cynllunio C17/0772/36/LL. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyrued felly os yw'r amgylchiadau neu'r sefyllfa bolisi cynllunio wedi newid ers caniatáu'r cais hwn yn wreiddiol.

Nodwyd bod polisi ISA 1 yn berthnasol i'r ddarpariaeth o isadeiledd newydd ac yn datgan bydd cynigion am wasanaethau dŵr, trydan, nwy ac ati i wella'r ddarpariaeth, yn cael ei ganiatáu yn amodol ar ystyriaethau cynllunio manwl. Ategwyd bod Polisi Strategol PS5 yn y CDLl cyfredol yn cefnogi cynigion datblygu lle gellid dangos eu bod yn gyson gydag egwyddorion datblygu

cynaliadwy. O safbwynt y datblygiad yma, dangoswyd yr angen amlwg am yr is-orsaf arfaethedig ac er wedi ei lleoli y tu allan i unrhyw derfynau datblygu penodol; mae'r is-orsaf wedi mynd drwy broses arfarnu dylunio a lleolwyd yr opsiwn a ffafrir ger bodolaeth llinell drydan uwchben 400kv Pentir - Trawsfynydd.

Yng nghyd-destun materion bioamrywiaeth, llifogydd a draenio, nodwyd na dderbyniwyd gwrthwynebiadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru, yr Uned Bioamrywiaeth nac Uned Dwr ac Amgylchedd YGC

Ni ystyriwyd fod y bwriad o ymestyn yr amser a roddwyd o dan ganiatâd rhif C17/0772/36/LL er mwyn cychwyn ar y datblygiad yn groes i'r polisïau na'r canllawiau lleol a chenedlaethol perthnasol a bod y bwriad yn parhau i fod yn dderbyniol yn ddarostyngedig ar gynnwys amodau perthnasol fel y cynhwyswyd o fewn y caniatâdau blaenorol.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelod Lleol y sylwadau canlynol:
   - Bod y cais yn un syml a chlir
   - Bod yr angen am y compownd yn parhau
   - Nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi eu derbyn
   - Ei fod wedi ymgynghori gyda thrigolion lleol yn ystod y cais gwreiddiol
   - Yr unig 'effaith' fydd ger y brif ffordd yn ystod y gwaith adeiladu
   - Dim gwrthwynebiad gan y Cyngor Cymuned

c) Cynigiwyd ac eiliwyd caniatáu y cais

**PENDERFYNWYD: Caniatáu gydag amodau**

1. **5 mlynedd**
2. **Sicrhau cwblhau'r datblygiad yn unol â'r cynlluniau a dogfennau a gyflwynwyd yng nghais C17/0772/36/LL ynghyd a'r cynllun diwygiedig o ran gwyro'r llwybr cyhoeddus ganiatawyd yng nghais C18/0168/36/LL a'r Adroddiad Gwerthusiad Ecolegol a'r Adroddiad Asesiad Canlyniadau Llifogydd a gyflwynwyd ar y cais cyfredol.**
3. **Gorffeniad i'w gytuno (gan gynnwys lliw'r ffens)**
4. **Cytuno cynllun i waredu dŵr brwnt a dŵr wyneb**
5. **Cytuno cynllun rheoli amgylcheddol adeiladu**
6. **Cytuno cynllun rheoli traffig adeiladu a derbyn cymeradwyaeth Uned Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru ar faterion mynediad (ac unrhyw amodau ychwanegol sydd yn berthnasol i hyn).**
7. **Cwblhau'r tirweddu o fewn y tymor plannu cyntaf yn dilyn cwblhau'r bwriad.**
8. **Sicrhau gwyro / gwarchod y llwybr.**
9. **Amodau Archeolegol.**
10. **Amser gweithio.**

**Nodyn Dŵr Cymru ac Uned Dŵr ac Amgylchedd YGC**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.00 y.h.

**CADEIRYDD**